# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Snowdon**

**Cartref Gofal Snowdon**
**Llanberis**
**Caernarfon**
**LL55 4LF**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Snowdon

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Plas Garnedd Llanberis Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 27 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Mawrth 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Diben yr arolygiad hwn oedd cadarnhau a yw'r darparwr a'r unigolyn cyfrifol wedi gwneud y gwelliannau gofynnol i'r gwasanaeth yn dilyn y camau gofynnol a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Felly, ni wnaethom ystyried pob thema arolygu yn fanwl.

Mae rheolwr newydd yn y gwasanaeth ar hyn o bryd, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r trefniadau rheoli o ddydd i ddydd. Gwelwyd gwelliannau yn y broses o roi gwybod am ddigwyddiadau fel sy'n ofynnol  gan y rheoliadau ac mae'r rheolwyr yn gweithio gyda'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaethau eu rheoli'n ddiogel. Mae angen parhau â'r trefniadau ar gyfer datblygu a hyfforddi pob aelod o'r staff er mwyn gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer helpu'r bobl i ddilyn eu diddordebau a'u gweithgareddau dyddiol.

Mae'r adeilad wedi'i leoli ar ei dir ei hun ac yn agos at gyfleusterau lleol. Mae'r cartref yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r amgylchedd, ac mae'r heulfan newydd ar fin cael ei chwblhau.  Mae angen mynd i'r afael â rhai o'r meysydd a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf o hyd. Mae contractwyr allanol yn ymdrin â rhai o'r materion amgylcheddol.

## Llesiant

Mae'r staff yn trin y bobl â pharch, a gwelsom y staff yn ymateb yn brydlon i anghenion a dewisiadau'r unigolion. Mae'r bobl yn gallu ymlacio ac yn gyfforddus yng nghwmni'r staff sy'n sgwrsio mewn modd caredig, gofalgar a pharchus. Gall y bobl ddewis aros yn eu hystafelloedd gwely neu ymuno ag eraill yn y brif lolfa neu'r ardal fwyta. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y staff.

Nid yw'r bobl bob amser yn gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt nac yn cael cyfleoedd i ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau. Gallant ymlacio yn eu hystafelloedd gwely neu yn un o'r ardaloedd cymunedol i sgwrsio a gwylio'r teledu. Mae dewis o lyfrau, gemau ac eitemau crefft ar gael o amgylch y cartref, ond dywedwyd wrthym nad oes unrhyw weithgareddau wedi cael eu cynnal ers peth amser. Dywedodd y staff wrthym nad oes ganddynt amser i gynnal gweithgareddau gyda'r bobl gan eu bod yn rhoi blaenoriaeth i roi cymorth i'r bobl â'u hanghenion gofal. Wrth drafod gweithgareddau, dywedodd un person wrthym *“It’s no reflection on the staff they are all good.”* Dywedodd person arall wrthym *“There’s nothing to do here but sit in the chair.”* Nid oedd unrhyw weithgareddau wedi'u cynllunio yn cael eu cynnal ar ddiwrnod yr ymweliad. Nid yw'r cofnodion unigol o weithgareddau yn dangos yn llawn a yw'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu un i un.

Mae ansawdd yr amgylchedd yn gwella. Mae rhannau o'r amgylchedd wedi cael sylw ac mae'r gwaith sylweddol i adnewyddu'r heulfan ar fin cael ei gwblhau. Byddai'n fuddiol adnewyddu rhannau eraill o'r cartref er mwyn gwella llesiant y bobl ymhellach.

Caiff y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ei hybu. Clywsom staff yn siarad â'r bobl yn Gymraeg ac yn Saesneg, i'w helpu i deimlo'n gartrefol.

## Gofal a Chymorth

Gwelsom y staff yn diwallu anghenion y bobl mewn modd gofalgar. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod digon o weithwyr gofal ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae clychau galw o fewn cyrraedd hawdd i'r bobl yn eu hystafelloedd gwely er mwyn iddynt roi gwybod i'r staff os bydd angen cymorth arnynt. Dywedodd y bobl wrthym fod clychau galw ar gael iddynt yn eu hystafelloedd gwely.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r cofnodion gofal ar ffurf electronig ac roedd y cynlluniau personol a welwyd yn fanwl. Mae'r gweithwyr gofal yn defnyddio dyfeisiau a ddelir â llaw i ychwanegu ymyriadau gofal, wrth iddynt gael eu rhoi ar waith. Mae'r gweithwyr gofal yn defnyddio'r rhaglen ar ddyfeisiau symudol y gwasanaeth i storio'r holl ddogfennaeth bersonol am y bobl. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau personol ac asesiadau risg sy'n rhoi gwybodaeth i'r staff i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i'r bobl yn unol â'r anghenion a nodwyd. Mae'r rheolwr newydd wrthi'n adolygu'r holl gynlluniau gofal.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu dewis ble i dreulio eu diwrnodau, naill ai yn eu hystafell wely neu yn un o'r ardaloedd cymunedol. Wrth i ni arsylwi, gwelsom fod rhai o'r bobl yn eistedd yn y lolfa yn gwylio'r teledu, a bod pobl eraill yn eistedd yn y lolfa lai neu yn eu hystafelloedd gwely unigol. Clywsom y staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd ystyrlon. Nid oedd unrhyw weithgareddau wedi'u cynllunio yn cael eu cynnal a dywedodd y bobl a oedd yn dewis aros yn eu hystafell wely wrthym na fyddai'r staff yn ymweld â nhw yn eu hystafelloedd oni fyddent yn canu'r gloch alw. Dywedodd y staff hefyd nad oedd unrhyw weithgareddau wedi cael eu cynnal ers peth amser. Gwnaethant sôn hefyd nad oedd amser ganddynt i gefnogi'r bobl â gweithgareddau. Dangosodd y rheolwr bosteri gweithgareddau i ni a thrafododd gynlluniau ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol, ond nid oedd y rhain wedi cael eu cyflwyno ar adeg yr arolygiad. Clywsom staff yn siarad Cymraeg a Saesneg â'r bobl yn unol â'u dewisiadau, er mwyn helpu'r bobl i deimlo eu bod yn perthyn. Nid oes amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu cynnig i wella llesiant y bobl. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl yn aros mor iach â phosibl o ganlyniad i'r gofal a roddir a'r atgyfeiriadau amserol sy'n cael eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol. Ni wnaethom edrych yn fanwl ar y trefniadau ar gyfer rhoi a storio meddyginiaethau yn ystod yr arolygiad hwn. Yr uwch-staff gofal sy'n gyfrifol am roi a storio meddyginiaethau. Mae'r bwrdd iechyd lleol yn bwriadu cynnal adolygiad o feddyginiaethau. Yn dilyn yr ymweliad arolygu, cafodd AGC gopi o adroddiad y fferyllfa gymunedol ar ôl ei hymweliad â’r gwasanaeth ar 13 Rhagfyr 2023. Cymerwyd tri cham gwella mewn perthynas â chydymffurfio â chanllawiau’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Mae anghenion deietegol y bobl yn cael eu hystyried, ac mae prydau iach a maethlon yn sicrhau bod y bobl yn aros yn

iach. Mae'r staff arlwyo a’r tîm rheoli yn bwriadu adolygu'r fwydlen bresennol er mwyn cyflwyno mwy o ddewisiadau. Dywedodd un person wrthym *“We have a varied diet, but there is no choice on the daily menu, today we had something different which I really enjoyed.”* Gwelsom fod lluniaeth poeth ac oer ar gael a bod cacennau cartref yn cael eu cynnig adeg te prynhawn.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref glân a diogel. Gofynnir i ymwelwyr ddangos prawf adnabod a llofnodi'r llyfr ymwelwyr. Oherwydd y gwaith adeiladu mawr sy’n cael ei wneud i’r heulfan, mae’r bobl wedi’u cyfyngu i ardaloedd y patio y tu ôl i’r adeilad, gan fod yr heulfan yn anniogel i’r bobl ei defnyddio ar hyn o bryd. Gall y bobl ddefnyddio’r ardal o flaen yr adeilad, sy’n cynnwys patio ac ardal smygu. Gall y bobl ddefnyddio ardaloedd eraill o’r cartref gan gynnwys y lolfa a’r ardal fwyta. Mae cymhorthion ac addasiadau ar gael i helpu'r bobl i allu cyrraedd pob rhan o'r cartref. Gellir cyrraedd y llawr cyntaf gan ddefnyddio'r grisiau neu'r lifft teithwyr. Roedd y cyfarpar yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg, ac roedd gwiriadau diogelwch blynyddol yn cael eu cynnal.

Mae’r darparwyr yn gweithio i wella’r amgylchedd er mwyn helpu’r bobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Mae’r heulfan yn cael ei hailadeiladu a disgwylir i’r gwaith adeiladu gael ei gwblhau yn 2024, mae dŵr yn gollwng yn un o’r ystafelloedd ymolchi ar y llawr cyntaf ac mae olion y difrod dŵr i’w gweld yn yr ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod. Mae ôl traul ar y gwaith paent yn yr ardaloedd cymunedol gan eu bod yn ardaloedd sy’n cael eu defnyddio’n helaeth ac nid yw’r hob yn gweithio’n iawn. Mae'r toiled i ymwelwyr wedi cael ei adnewyddu i safon dda. Mae'r materion amgylcheddol yn parhau; felly, mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn parhau'n weithredol.

Roedd digon o Gyfarpar Diogelu Personol ar gael yn hwylus o amgylch y cartref mewn cynwysyddion ar y wal, ac roedd posteri Atal a Rheoli Heintiau i'w gweld yn yr ardaloedd cymunedol. Dylai'r rheolwyr ystyried ail-leoli'r posteri er mwyn gwella llesiant y bobl. Yn ogystal, dylai'r darparwr reoli'r risg sy'n gysylltiedig â storio menig a ffedogau.

Sgôr hylendid bwyd y cartref yw pedwar o hyd, allan o sgôr bosibl o bump ar gyfer safonau hylendid.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i weithredu'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn rhoi cymorth i'r staff. Mae rheolwr newydd wedi dechrau yn y gwasanaeth ac wedi rhannu ei weledigaeth ar gyfer gwella safonau yn y cartref. Mae gan y gwasanaeth Ddatganiad o Ddiben, sy'n disgrifio'n glir at bwy y mae'r gwasanaeth wedi'i anelu a sut y caiff gofal ei ddarparu. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth sy'n disgrifio'r gwasanaeth a sut i wneud cwyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi llunio adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal sy'n cynnwys barn y bobl a meysydd i'w gwella er mwyn gwella safonau yn y cartref.

Yn yr arolygiad diwethaf, nodwyd nad yw'r darparwr bob amser yn cyflwyno hysbysiadau mewn modd amserol neu pan fydd digwyddiad yn codi y mae'n rhaid rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr amdano. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud mewn perthynas â chyflwyno hysbysiadau, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Mae prosesau recriwtio staff ar waith. Mae’r cofnodion yn dangos bod gwiriadau yn cael eu cynnal cyn i’r staff ddechrau gweithio. Mae gan y darparwr broses dethol a fetio ar waith, sy’n cynnwys cael geirdaon. Gwnaethom edrych ar gofnodion tri gweithiwr gofal a gwelsom ddau eirda ar gyfer dau o’r gweithwyr gofal ac un geirda ar gyfer un gweithiwr gofal. Darparodd yr Unigolyn Cyfrifol gopïau o’r geirdaon ar ôl yr ymweliad arolygu. Mae’r staff sydd wedi’u cyflogi wedi’u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae’r dystiolaeth a gafwyd drwy’r broses arolygu hon yn ddigonol i gau’r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.

Mae'r rheolwr newydd yn cymryd camau rhagweithiol i gefnogi'r staff ac i roi newidiadau ar waith i wella safonau cyffredinol y gwasanaeth. Caiff cyfarfodydd staff eu trefnu i rannu materion gweithredol megis hyfforddiant, iechyd a diogelwch, ac i roi cyfleoedd i'r staff rannu syniadau neu unrhyw bryderon am y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio mor aml ag sy'n ofynnol, fel y nodir yn y rheoliadau. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos nad yw pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant sy'n benodol i'r anghenion a nodwyd ar gyfer y bobl. Bydd datblygu'r hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir i'r staff ymhellach yn sicrhau bod gan y staff gofal y sgiliau a'r wybodaeth i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer yr unigolion yn y cartref, gan eu cadw'n ddiogel a hybu canlyniadau iechyd cadarnhaol. Mae datblygiad a hyfforddiant staff yn fater parhaus; felly, mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn parhau'n weithredol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Nid oes gan y darparwr gynllun cynnal a chadw ar waith ac nid yw wedi nodi meysydd iechyd a diogelwch, atal a rheoli heintiau ac addurno cyffredinol y mae angen ymdrin â nhw. | Heb Gyflawni |
| 35 | Mae'r darparwr wedi methu â sicrhau bod proses effeithiol ar waith i wneud yn siŵr bod gan y staff gofal y geirdaon angenrheidiol cyn iddynt ddechrau eu swydd. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd mor aml ag sy'n ofynnol.  Nid yw'r staff yn cael hyfforddiant sy'n benodol i'r anghenion gofal a nodwyd ar gyfer y bobl sy'n cael eu | Heb Gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | cefnogi. Nid yw pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant sydd wedi'i gofnodi yn y cofnodion hyfforddiant. | |
| 58 | Ni chaiff meddyginiaethau eu rheoli'n ddiogel yn y cartref. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Nid yw'r bobl yn cael cymorth i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau er mwyn gwella eu llesiant.  Dylai'r darparwr hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau gan ddibynnu ar ddewisiadau a galluoedd yr unigolion. | Newydd |
| 60 | Nid yw'r darparwr bob amser yn cyflwyno hysbysiadau mewn modd amserol neu pan fydd digwyddiad, fel y'i nodir yn y rheoliadau, wedi digwydd. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/02/2024